**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ●Heol Wynne**
**● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398 clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

# COFNODION
# CYFARFOD ARFEROL

# 12fed o RAGFYR 2022

COPI DRAFFT

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS LUN 12fed o RAGFYR 2022**
**AR LEIN ac WYNEB YN WYNEB YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cynghorydd: Alun Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Ifor Roberts
Marc Lloyd Griffiths
Mark Thomas
Dafydd Dafis

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd Rory Francis
Cynghorydd Eirian Williams
Cynghorydd Linda A Jones
Cynghorydd Glyn Daniels
Cynghorydd Eifiona Davies
Cynghorydd Morwenna Pugh

**2. DATGAN DIDDORDEB**

**3. MATERION BRYS**

*Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.*
***Dalier Sylw* trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Ni fu mater brys.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu.**

Ni fu cynrychiolydd o'r Heddlu yn bresennol a ni chodwyd unrhyw fater.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Ni dderbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i annerch y Cyngor.

**6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arferol 14eg o Dachwedd, 2022.**

Y Cynghorydd Alun Jones yn cynnig a'r Marc Lloyd Griffiths yn eilio cynnig i ohirio trafodaeth ar y cofnodion hyn tan y cyfarfod nesaf, gan nad oedden nhw'n gywir. Roedd Cynghorwyr yn meddwl fod yna gamgymeriadau o ran yr arian a cynigwyd neu na chafodd ei gynnig i Barnardos a'r Urdd a bod yna, o bosibl, gamgymeriad am yr Ambiwlans Awyr, hy, y cytunwyd i ysgrifennu at yr Ambiwlans Awyr ei hun hefyd.

COPI DRAFFT

CYTUNWYD

Roedd y Cyng. Mark Thomas o'r farn na chytunwyd cofnodion o'r 4 o Hydref ychwaith ac y byddai angen trafod y rhain nes ymlaen hefyd.

## 7. Derbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anarferol 25ain o Dachwedd, 2022.

Cynigiodd y Cyng. Mark Thomas y dylid ystyried y cofnodion hyn yn y cyfarfod nesaf. Eiliodd y Cyng. Ifor Roberts y cynnig yma.

CYTUNWYD

## 8. Cyfrifon wedi / i'w talu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau I'w talu / Payments Due | | 15.11.22-12.12.22 | | | |
| Cyfarfod Arferol / Ordinary Meeting 12.12.22 | | | | | |
| | | | | | |
| **Cyfrifon 2022-23 (Wedi'I dalu/ Paid)** | | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Dull talu / payment** | |
| 30/11/2022 | Natwest | Costa cyfrif misol / Monthly account charges | £ 1.05 | DD | 1 |
| 15/11/2022 | Natwest | Ffioedd Tachwedd 22 | £ 29.00 | DD | 2 |
| | | | | | |
| **Cyfrifon 2022-23 (I'w dalu/ To pay)** | | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Dull talu / payment** | |
| 29/11/2022 | Huws Gray | Had Gwair | £ 11.17 | Ar-lein | 3 |
| 30/11/2022 | Criccieth Cleaning Ltd | Glanhau llochesi bws a pharciau | £ 1,203.53 | Ar-lein | 4 |
| 30/11/2022 | GL Jones | Arolygiad/gwasanaeth i'r zip line | £ 240.00 | Ar-lein | 5 |
| 30/11/2022 | GL Jones | Arolygiad/gwasanaeth i'r BirdNest | £ 180.00 | Ar-lein | 6 |
| 14/10/2022 | Viking | Ink a phapur | £396.71 | Ar-lein | 7 |
| 28/10/2022 | Viking | Ink a phapur | £74.98 | Ar-lein | 8 |
| 31/10/2022 | Macemain + Amstad | Ffrâm wydr plant | £1,216.80 | Ar-lein | 9 |
| 16/11/2022 | Lleol.Cymru | Hysbyseb swydd Dirprwy Glerc y Dref | £180.00 | Ar-lein | 10 |
| 18/11/2022 | British Gas | Trydan Pafiliwn Electric | £18.45 | DD | 11 |
| 01/12/2022 | BT | Anfoneb misol Bandeang / ffon / monthly bill | £69.86 | DD | 12 |
| 03/12/2022 | Neuadd Ffestiniog | Llogi ar gyfer clwb ieuenctid | £100.00 | Ar-lein | 13 |
| 04/12/2022 | Patricia Helen Jones | Garddio | £758.75 | Ar-lein | 14 |
| 05/12/2022 | Zoom | Tanysgrifiad Zoom | £52.79 | Ar-lein | 15 |
| 13/09/2021 | GL Jones | Gwaith yn dilyn archwiliad Rospa 2020 | £330.00 | Ar-lein | 16 |
| 26/09/2021 | GL Jones | Cynnal a Chadw Inv102867 | £373.28 | Ar-lein | 17 |
| 31/03/2022 | GL Jones | Gwaith yn dilyn archwiliad Rospa 2021 inv103047 | £436.80 | Ar-lein | 18 |
| 31/03/2022 | GL Jones | Gwaith yn dilyn archwiliad Rospa 2021 inv103044 | £454.80 | Ar-lein | 19 |
| 31/03/2022 | GL Jones | Gwaith yn dilyn archwiliad Rospa 2021 inv103045 | £36.00 | Ar-lein | 20 |
| 10/09/2021 | GL Jones | Gwaith yn dilyn archwiliad Rospa 2021 inv102860 | £236.40 | Ar-lein | 21 |
| 30/11/2022 | GL Jones | Archwilio Bird's Nest | £150.00 | Ar-lein | 22 |
| 30/11/2022 | GL Jones | Bird's Nest | £399.36 | Ar-lein | 23 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | **£ 6,949.73** | | |
| | | | | | |
| ARIAN I MEWN / INCOME | | | | | |
| 02/11/2022 | HMRC | | £3,441.43 | | |
| | | **Cyfanswm / Total** | **£3,441.43** | | |
| | | | | | |

Fe gynigiodd y Cyng Mark Thomas, ac fe eiliodd y Cyng Dafydd Dafis y dylid talu'r cyfrifon hyn, ynghyd â'r anfoneb oddi wrth Ganolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog am logi ystafell, rhwng 3 Hydref a'r 19 Rhagfyr, am gyfanswm o 715.00, ynghyd ag anfoneb oddi wrth John Roberts Ffestiniog am gludo'r coed Nadolig, am £144.

**CYTUNWYD**

Cytunwyd hefyd i edrych yn fwy manwl yn y dyfodol ar gostau GL Jones.

**9. Cyfrifon misol y Cyngor Tref**

Fe adroddodd Cai Gruffydd, y Swyddog Ariannol Dros Dro, fod y cyfrifon yn balansio ond gan nad oedd y ffigyrau o flaen y Cynghorwyr cytunwyd i gymeradwyo'r rhain yn y cyfarfod nesaf.

CYTUNWYD

Fe atgoffodd Cai Gruffydd y Cyngor y bydd angen pasio praesept y mis nesaf, felly bydd angen trefnu Pwyllgor Adnoddau i drafod y Praesept er mwyn gallu pasio praesept yn y cyfarfod Arferol ym mis Ionawr.

**DAWNS IN BAWB**

Fe gynigiodd Marc Lloyd Griffiths ac fe eiliodd Ifor Roberts na ddylid cynnig grant i Ddawns i Bawb ar y sail nad yw'r grŵp yn gwneud llawer o waith gydag ysgolion lleol.

CYTUNWYD

**11. Ceisiadau Cynllunio**

a) Rhif Cais / Application **No. NP5/59/805**
Lleoliad / Location: **Coetir, Ceunant Sych, tir gyferbyn a Cymerau Canol, Blaenau Ffestiniog.**
Bwriad / Proposal: Ffurfio mynediad a man llwytho dros dro/ Formation of a temporary access and loading bay

Fe wnaeth y Cynghorydd Ifor Roberts gynnig a'r Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths eilio fod y Cyngor ddim yn gwrthwynebu'r cais hwn, ond yn mynegi pryderon am y cais hwn, ar y sail y gallai cynllun arwain at lygru'r afon.

CYTUNWYD

b) Rhif Cais / Application No.: C22/0579/03/LL

Lleoliad / Location: Gwylfa Garage Ffordd Manod, Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AR

Bwriad / Proposal: Adeiladu 8 annedd Construction of 8 dwellings

Fe wnaeth y Cynghorydd Mark Thomas yn cynnig ac fe wnaeth y Cyng Ifor Roberts eilio fod y Cyngor ddim yn gwrthwynebu'r cais hwn.

CYTUNWYD

**11515/11/22 12. Iechyd**

Ni chodwyd unrhyw fater o dan yr eitem yma.

COPI DRAFT

**13. Llythyr Andrew Parry, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd am Ffair Llan**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Andrew Parry o Gyngor Gwynedd yn lleisio pryder am ddiogelwch y Ffair. Fe gynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas, ac fe eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths i drafod ymateb y Cyngor i'r llythyr hwn yn y cyfarfod nesaf.

CYTUNWYD

**14. Trafod lleoliad mainc cyfeillgarwch rhif 2 wedi ei greu gan Erin Dafis**

**Fe gynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas, ac fe eiliodd Ifor Roberts, y dylid gohirio'r penderfyniad am ble i roi y fainc gyfeillgarwch y mae Erin Dafis wedi greu.**

**CYTUNWYD**

**15. Ail drafod dyfynbris ffenestri newydd i'r Pafiliwn (Caffi'r Parc).**

Fe gynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis, ac fe eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas, y dylai'r Cyngor dderbyn y cynnig gan Ffenestri Dwyfor i gyflenwi, gosod a thrwsio ffenestri'r pafiliwn am £7,700, sydd i fod i gynnwys VAT, ar yr amod fod y Cyngor i cadarnhau ymlaenllaw fod hwn yn cynnwys VAT, h.y., y bydd y Cyngor yn gallu hawlio'r VAT yn ôl ar y taliad yma. Os nad yw hynny'n wir, cytunwyd i fynd am yr ail gynnig rhatach, heb orfod aros am fis arall.

CYTUNWYD

**16. Ail-drafod Dyfynbris Planters Newydd i'r Stryd Fawr**

**Fe gynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis, ac fe eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas, na ddylen ni brynu planters newydd i'r Stryd Fawr eto, ond, yn hytrach, gofyn i'r Cynghorydd Mark Thomas eu trwsio efo screws.**

**CYTUNWYD**

**17. Caeau chwarae**

Cytunwyd i drwsio'r tyllau yn y llawr yn y Parc yn cael eu trwsio.

Fe gynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis, ac fe eiliodd Marc Lloyd Griffiths, i drwsio'r twll yn y fainc yr oedd Helen wedi ei yrru.

Fe adroddodd Cai Gruffydd fod y archeb wedi mynd i Anglesey Turf heddiw, fel y cytunwyd gynt.

Fe adroddodd y Cynghorydd Mark Thomas ei fod o wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod efo Cadwch Gymru'n Daclus a'r Cynghorydd Rory Francis am Berllan Pant yr Ynn. Roedd Cadwch Gymru'n Daclus yn debyg o gynnig grant inni am goed, casgen ddwr a fân bethau eraill, ond er mwyn symud y prosiect ymlaen mae eisiau archebu slate waste ar gyfer y safle.

CYTUNWYD

COPI DRAFFT

## 18. CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Doedd yna ddim adroddiad.

## 19 Agenda y Cyfarfod nesaf

Cytunwyd i gynnwys eitem ar raglen y cyfarfod nesaf am daliad Cyngor Tref Ffestiniog tuag at Hub Officer ar gyfer Cyngor Gwynedd, ar y sail nad yw Cyngor Gwynedd yn cyflogi Hub Officer dim mwy.

Fe holodd y Cynghorydd Mark Thomas pam fod y Cyngor yn talu Castell Hywel am fwyd, yn gysylltiedig â'r Clwb Ieuenctid?

Fe ofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas pam nad oedd mater cyfethol Cynghorydd arall ar yr agenda y mis yma? Cytunwyd i ofyn i'r Cadeirydd sicrhau fod hwn ar y rhaglen y mis nesaf.

## 20 Swydd y Dirprwy Glerc

Roedd y Cynghorydd Alun Jones yn deall fod yna gais wedi cael ei dderbyn a gyfer swydd y Dirprwy Glerc. Cytunwyd, os ydy hyn yn wir, i drio trefnu panel cyfweld, gobeithio Nos Lun y 18 Rhagfyr gyda'r Cynghorwyr Rory Francis, Linda A Jones, Dafydd Dafis a Marc Lloyd Griffiths.

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS LUN 12fed o Ragfyr 2022**
**AR LEIN ac yn SIAMBR am 7.00 y.h.**

**CEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 12fed o Ragfyr 2022**
**AR YR 5ed o Ragfyr 2022**

COPI DRAFFT